| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | **Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad** | **3 Mawrth 2022** |
| **Pwnc** | **Argymhelliad Panel Cyfweld – Penodi Aelodau Lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| **Cadeirydd y Panel** | **Cynghorydd John Pughe Roberts** |
| **Awdur** | **Pennaeth Cyllid** |

1. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi addasu Mesur Llywodraeth Leol 2011 mewn perthynas â phwyllgorau llywodraethu ac archwilio awdurdodau lleol Cymru.
2. Lle'n flaenorol, roedd rhaid cael un aelod lleyg ar y Pwyllgor, erbyn Mai 2022 rhaid i o leiaf draean o aelodau'r Pwyllgor fod yn aelodau lleyg (a rhaid i'r Cadeirydd fod yn un o'r aelodau lleyg hynny).
3. Yn ei gyfarfod ar 2 Rhagfyr 2021, penderfynodd y Cyngor llawn bydd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 18 aelod, gyda 12 o'r aelodau yn aelodau o Gyngor Gwynedd a 6 aelod lleyg o Mai 2022 ymlaen.
4. Mae'r adroddiad perthnasol i'w gael yma:

   Eitem 11 - Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru 2021 - Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.pdf
5. Nodwyd yn yr adroddiad yn Rhagfyr fod y broses ar gyfer penodi aelodau lleyg eisoes wedi cychwyn. Roedd hyn yn ymateb i gyfle i gymryd rhan mewn ymgyrch hysbysebu eang gan CLlLC.
6. Yn dilyn yr ymgyrch hysbysebu, cyflwynwyd 10 cais. Nid oedd 2 o'r ceisiadau hyn yn cynnwys unrhyw wybodaeth i alluogi'r Panel i asesu'r ceisiadau, felly ni cawsant eu gwahodd i gyfweliad. Bu i ddau o'r ymgeiswyr eraill dynnu eu cais yn ôl cyn ddiwrnod y cyfweliad.
7. Mae'r meini prawf ar gyfer penodi aelodau lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel a gymeradwywyd gan y Cyngor yn 2017, i'w cael yn yr Atodiad.
8. Ar 17 Chwefror, cynhaliwyd cyfweliadau i chwe ymgeisydd gan banel yn cynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (y Cynghorydd John Pughe Roberts), a'r Aelod Cabinet dros Gyllid (y Cynghorydd Ioan Thomas), wedi'u cynghori gan y Swyddog Cyllid Statudol (Dewi Morgan) a'r Swyddog Monitro (Iwan Evans).

9. Yn dilyn ystyriaeth ofalus a thrylwyr o’r ceisiadau, penderfynodd y Panel fod pedwar o’r ymgeiswyr yn cwrdd â’r meini prawf, a dylid argymell i’r Cyngor llawn eu bod yn cael eu penodi’n aelodau lleyg o’r Pwyllgor:

- Mr Hywel Eifion Jones
- Mrs Sharon Warnes
- Mr Rhys Parry
- Mrs Clare Hitchcock

10. Mae hyn yn golygu fod dwy sedd aelod lleyg yn parhau’n wag. Bwriedir ail-hysbysebu yn ystod mis Mawrth er mwyn penodi i’r llefydd gwag hyn; bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod dilynol o’r Cyngor.

**Argymhelliad**

**Penodi Mr Hywel Eifion Jones, Mrs Sharon Warnes, Mr Elwyn Rhys Parry a Mrs Clare Hitchcock fel Aelodau Lleyg o’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am gyfnod o 5 mlynedd.**

---

**Barn yr aelod lleol**

Dim yn fater lleol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Swyddog Monitro:**

Gallaf gadarnhau fod yr adroddiad yn adlewyrchu barn y Panel yn briodol.

**Pennaeth Cyllid:**

Awdur yr adroddiad